

## CYNGOR BRO MORGANNWG

Hysbysiad Penderfyniad – Arbennig Cyfarfod o Bell, 30 Ionawr, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorydd Susan Lloyd-Selby (Maer); Cynghorwyr Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Robert Fisher, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Howard Hamilton, Sally Hanks, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Margaret Wilkinson, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

### EITEM AGENDA 1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr I. Buckley, R. Godfrey a S.T. Wiliam.

### EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### EITEM AGENDA 3. DATGANIAD CYFRIFON ARCHWILIEDIG 2021/22 (SA151) –

#### PENDERFYNWYD –

- (1) NODI adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- (2) BOD y Llythyr Sylwadau i Archwilio Cymru ar gyfer 2021/22 sydd ynghlwm yn Atodiad 2 i'r adroddiad, yn cael ei gymeradwyo a'i lofnodi a'i ddyddio gan y Maer fel Cadeirydd y Cyngor.
- (3) BOD y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (o fewn y Datganiad Cyfrifon) ar gyfer 2021/22 yn cael ei gymeradwyo a'i lofnodi a'i ddyddio gan Arweinydd y Cyngor.
- (4) BOD Datganiad Cyfrifon 2021/22 yn cael ei gymeradwyo a'i lofnodi a'i ddyddio gan y Maer fel Cadeirydd y Cyngor.

## Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Bod y llythyr sylwadau yn cael ei gymeradwyo, ei lofnodi a'i ddyddio a'i ddychwelyd i Archwilio Cymru.
- (3) Bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gymeradwyo, ei lofnodi a'i ddyddio yn ôl yr angen.
- (4) Bod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei gymeradwyo, ei lofnodi a'i ddyddio yn ôl yr angen.